Y Gronfa Gymdeithasol

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Ionawr 2011.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Angen help arnoch i fyw yn y gymuned? 4
Grant Gofal Cymunedol 4
Oes angen i chi ledaenu cost rhywbeth? 8
Benthyciad Trefnu 8
A oes angen help arnoch mewn argyfwng, heb unrhyw le arall i droi? .12
Benthyciad Argyfwng 12
Os byddwch yn anghytuno gyda'n penderfyniad 16
Gofyn i ni adolygu ein penderfyniad 16
Adolygiadau gan Arolygydd Cronfa Gymdeithasol 17
Angen talu am angladd? 19
Taliad Angladd 19
Angen prynu pethau i fabi newydd? . .23
Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn 23
A oes angen help arnoch gyda'ch costau gwresogi? 26
Taliad Tywydd Oer 26
Taliad Tanwydd Gaeaf 28
Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir 30
Beth os na allaf gael cymorth gan y Gronfa Gymdeithasol? 31
Cysylltiadau 32

Angen help arnoch i fyw yn y gymuned?

Grant Gofal Cymunedol

Beth yw Grant Gofal Cymunedol?

Swm o arian di-dreth yw hwn nad oes rhaid i chi ei dalu'n ôl. Gall Grant Gofal Cymunedol helpu pobl i ymdopi ag anawsterau arbennig.

Ar gyfer beth mae hwn?

Gallai Grant Gofal Cymunedol eich helpu i:

- symud yn ôl i'r gymuned ar ôl bod mewn gofal
- aros yn eich cartref yn lle mynd i mewn i ofal
- sefydlu cartref yn y gymuned, ar ôl dilyn ffordd o fyw ansefydlog (fel rhan o raglen sydd wedi'i chynllunio i'ch adsefydlu)
- gofalu am garcharor neu droseddwr ifanc pan fydd yn gadael y carchar ar drwydded dros dro
- lleddfu pwysau eithriadol arnoch chi a'ch teulu, neu
- talu am gostau teithio penodol fel mynd i angladd aelod o'r teulu neu ymweld â rhywun sy'n sâl.

Bydd y ffurflen gais y byddwch yn ei chwblhau yn eich helpu i gael yr holl wybodaeth gywir.

A allaf gael Grant Gofal Cymunedol?

Efallai y gallech gael Grant Gofal Cymunedol os ydych yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Pensiwn
- taliad oherwydd un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn, neu
- os rydych yn mynd i adael gofal o fewn y chwe wythnos nesaf ac rydych yn debygol o gael un o'r budd-daliadau hyn pan fyddwch yn gadael.

Pa fath o bethau y gallaf wneud cais i gael help gyda hwy?

Dyma rai enghreifftiau:

- dodrefn (fel soffa, cadair freichiau neu wely) - offer tŷ (fel popty neu oergell)
- dillad gwely a dillad
- costau teithio
- treuliau symud
- costau storio, neu
- costau cysylltu.

Faint y gallaf ei gael?

Byddwn yn talu'r hyn y byddwn yn ei feddwl sy'n iawn ar gyfer y pethau rydych yn gwneud cais amdanynt ac efallai y byddwn yn edrych dros y costau gyda chi os byddant yn ymddangos yn ormod.

Ni allwn dalu grant sy'n llai na £30 oni bai ei fod am gostau teithio neu fyw.

Sut y gallaf wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais Grant Gofal Cymunedol drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Pryd y gallaf wneud cais?

Dylech wneud cais cyn gynted ag y bydd angen rhywbeth arnoch. Os ydych mewn gofal ac y bydd angen rhywbeth arnoch pan fyddwch yn gadael, gallwch wneud cais hyd at chwe wythnos cyn y dyddiad y disgwylir y byddwch yn gadael.

Sut rydych yn penderfynu?

Mae llawer o resymau pam y gallai rhywun ofyn am un o'r grantiau hyn, a pham y gallem roi un ohonynt.

Wrth benderfynu a allwn dalu, byddwn yn:

- edrych ar bopeth y byddwch yn dweud wrthym amdanynt yn eich cais
- edrych ar faint o arian sydd yn y gyllideb grantiau, fel y byddwn yn gwybod a oes digon o arian i'ch talu, ac
- edrych ar eich cais a chais pawb arall i weld pwy sydd angen help fwyaf.

Pryd y byddaf yn cael gwybod?

Byddwn yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau o fewn pythefnos.

Byddwch yn cael llythyr yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad. Os byddwn yn dyfarnu Grant Gofal Cymunedol, byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn llythyr faint ydyw.

Sut y byddwch yn fy nhalu?

Fel arfer byddwn yn talu Grantiau Gofal Cymunedol yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi anfon derbynebau atom ar gyfer y pethau rydym wedi talu ar eich cyfer.

Beth os oes gennyf gynilion?

Bydd unrhyw gynilion sydd gennych dros £500 (neu gynilion dros £1,000 os ydych chi neu'ch partner yn 60 neu'n hŷn) yn effeithio ar faint a gewch.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Ni fydd Grant Gofal Cymunedol yn effeithio ar unrhyw arian arall rydych yn ei gael gennym.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Oes angen i chi ledaenu cost rhywbeth?

Benthyciad Trefnu

Beth yw Benthyciad Trefnu?

Mae hwn yn fenthyciad di-dreth. Ni chodir tâl llog ond mae'n rhaid i chi dalu'r benthyciad yn ôl.

Mae Benthyciadau Trefnu yn eich helpu i ledaenu cost y pethau y mae angen i chi eu prynu bob hyn a hyn.

Ar gyfer beth mae hwn?

Gallwch ddefnyddio Benthyciad Trefnu i helpu i dalu am:

- ddodrefn ac eitemau i'r cartref
- dillad ac esgidiau
- costau teithio
- costau i wella neu i gynnal a chadw eich cartref, neu i'w gadw'n ddiogel
- rhent ymlaen llaw neu gostau symud i fynd i cartref newydd neu'r ddau, neu
- hurbwrcas neu ddyledion eraill a allai fod gennych mewn perthynas â'r eitemau uchod.

Ni allwn dalu Benthyciad Trefnu o lai na £100.

A allaf gael Benthyciad Trefnu?

Gallech gael Benthyciad Trefnu os ydych yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Pensiwn, neu
- daliad oherwydd un o'r budd-daliadau hyn, ac
- rydych chi neu'ch partner wedi bod yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn am o leiaf 26 wythnos.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Sut y gallaf wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais Benthyciad Trefnu drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Pryd y byddaf yn cael gwybod?

Rydym yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau o fewn wythnos.

Beth os gallaf gael Benthyciad Trefnu?

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn cynnig swm y benthyciad ac yn nodi faint y bydd angen i chi ei dalu'n ôl bob wythnos.

Yn aml bydd y llythyr yn dangos hyd at dri swm benthyciad i chi ddewis ohonynt, a bydd gan bob un ohonynt gyfradd ad-dalu wythnosol wahanol. Gallwch ddewis y swm benthyciad a'r gyfradd ad-dalu orau i chi.

Gallai fod ar gyfer y swm cyfan y gofynnwch amdano, neu gallai fod yn llai.

Pan fyddwn yn cynnig benthyciad byddwn hefyd yn edrych ar faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl bob wythnos er mwyn sicrhau y gallwch fforddio talu pob un o'ch benthyciadau yn ôl o fewn 104 wythnos.

Pan fyddwch yn llofnodi ac yn dychwelyd y llythyr, caiff y benthyciad ei dalu i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Sut rydych yn penderfynu?

Er mwyn penderfynu faint o arian i'w roi, yn gyntaf byddwn yn edrych i weld p'un a ydych yn:

- sengl heb blant
- rhan o gwpl heb blant, neu
- yn sengl neu'n rhan o gwpl â phlant.

Mae gan bob un o'r grwpiau uchod derfyn benthyca. Mae'n rhaid i ni gadw o fewn cyllideb fel y gall y terfynau hyn godi pan fyddwn yn cael llai o geisiadau, neu ostwng pan fyddwn yn cael mwy. Ond gall pawb yn yr un grŵp fenthyca hyd at yr un swm ar unrhyw adeg.

Yna rydym hefyd yn gorfod ystyried pethau eraill, fel:

- faint o arian sydd arnoch i'r Gronfa Gymdeithasol o unrhyw fenthyciadau eraill a gawsoch eisoes
- unrhyw gynilion sydd gennych, a
- faint y gallwch chi fforddio ei ad-dalu.

Mae terfyn benthyciad cyffredinol o £1,500. Os ydych eisoes mewn dyled o ganlyniad i fenthyciadau yn y gorffennol, ni all y ddyled hon yn ogystal â'ch benthyciad newydd fynd dros y terfyn hwn.

Os oes gennych fwy na £1,000 o gynilion (neu dros £2,000 o gynilion os ydych chi neu'ch partner yn 60 a throsodd), bydd hyn yn effeithio ar faint y gallwch ei gael.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Ni fydd Benthyciad Trefnu yn effeithio ar unrhyw arian arall a gewch gennym.

Sut y byddaf yn ad-dalu'r Benthyciad Trefnu?

Byddwn fel arfer yn cymryd swm wythnosol o'ch:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i gael y budd-daliadau hyn, byddwn yn trefnu ffordd arall i chi ad-dalu'r benthyciad. Gallai hyn fod o fudd-daliadau eraill rydych yn eu cael, neu arian arall, fel cyflog. Byddwn yn dechrau gwneud hyn cyn gynted ag y gallwn, ar ôl talu'r benthyciad i chi.

Beth os wyf yn cael trafferth i'w ad-dalu?

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl. Efallai y gallwn helpu. Er enghraifft, efallai y gofynnwn i chi dalu llai bob wythnos ond am gyfnod hirach.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn gynted â phosibl os oes gennych broblem.

A oes angen help arnoch mewn argyfwng, heb unrhyw le arall i droi?

Benthyciad Argyfwng

Beth yw Benthyciad Argyfwng?

Mae hwn yn fenthyciad di-dreth. Ni chodir tâl llog ond mae'n rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad.

Dim ond os na fydd unrhyw ffordd arall y gallwch gael help y byddwn yn rhoi Benthyciad Argyfwng.

Nid oes rhaid i chi fod ar fudd-daliadau i wneud cais.

Ar gyfer beth mae hwn?

Mae Benthyciad Argyfwng yn rhywbeth sydd ei angen arnoch ar unwaith:

- mewn argyfwng, neu
- oherwydd trychineb,

ac ni fydd yr help sydd ei angen arnoch:

- ar gael o unrhyw le arall, a'r
- help sydd ei angen arnoch yw'r unig ffordd o atal niwed neu berygl difrifol i'ch iechyd a'ch diogelwch chi neu eich teulu.

Efallai hefyd y cewch fenthyciad os bydd angen help arnoch i dalu rhent ymlaen llaw, ond dim ond os ydych yn gadael gofal ac yn cael Grant Gofal Cymunedol.

A allaf gael Benthyciad Argyfwng?

Gall unrhyw un 16 oed neu'n hŷn wneud cais am Fenthyciad Argyfwng.

Sut y gallaf wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Os ydych oddi cartref ac ni allwch ddychwelyd, cysylltwch â'r swyddfa agosaf i ble rydych.

Ceisiadau lluosol

Os ydych yn gwneud eich trydydd cais (neu fwy) o fewn cyfnod o 12 mis, efallai y bydd angen i chi fynychu cyfweliad wyneb yn wyneb.

Beth os gallaf gael Benthyciad Argyfwng?

Rydym yn dweud wrthych faint gallwch ei gael, ac rydym yn cytuno gyda chi faint y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl bob wythnos. Rydym yn gwneud ad-daliadau wythnosol mor hawdd â phosibl i chi eu fforddio.

Rydym yn rhoi'r cynnig hwn mewn llythyr a bydd angen i chi ei lofnodi cyn y gallwn dalu'r benthyciad.

Os gwnaethoch gais dros y ffôn, fel arfer byddwn yn gofyn i chi fynd i'r Ganolfan Gwaith i lofnodi'r llythyr cynnig a chael taliad ar yr un pryd.

Byddwn fel arfer yn rhoi siec i chi yn eich enw. Gallwch ei chyfnewid am arian yn Swyddfa'r Post neu ei thalu i mewn i gyfrif.

Faint y gallaf ei gael?

Ni fydd yn penderfynu ar swm y Benthyciad Argyfwng. Diben y benthyciad yw eich helpu i ymdopi yn ystod cyfnod o argyfwng yn unig. Efallai na fyddwch yn gallu disodli pob colled neu drwsio'r holl ddifrod.

Mae terfyn benthyciad cyffredinol o £1,500. Os ydych eisoes mewn dyled o ganlyniad i fenthyciadau yn y gorffennol, ni all y ddyled hon yn ogystal â'ch benthyciad newydd fynd dros y terfyn hwn.

Efallai y byddwn yn cwestiynu'r swm y byddwch yn ei ofyn amdano os byddwn yn credu ei fod yn ormod ar gyfer eich anghenion.

Sut rydych yn penderfynu?

Rydym yn edrych ar bopeth y byddwch wedi'i ddweud wrthym:

- beth sydd ei angen arnoch ar unwaith, a
- help arall y gallech ei gael.

Er mwyn penderfynu a allwn gynnig Benthyciad Argyfwng i chi o gwbl, neu faint y gallwn ei gynnig, byddwn hefyd yn edrych ar:

- y math o argyfwng rydych ynddo
- p'un a wnaiff benthyciad atal difrod neu berygl difrifol i chi neu'ch teulu
- p'un a oes help arall y gallwch ei ddefnyddio, a
- p'un a ydych wedi gofyn am rywbeth na allwn eich helpu gydag ef.

Os oes gennych fenthyciad o'r Gronfa Gymdeithasol eisoes, gallech gael benthyciad arall os:

- byddwn yn cytuno bod angen un arnoch
- credwn y gallwch ad-dalu'r benthyciad newydd hefyd, ac
- os nad ydych eisoes wedi cyrraedd y terfyn.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Beth os oes gennyf gynilion?

Os oes gennych gynilion neu arian arall y gallwch ei ddefnyddio, efallai na chewch Fenthyciad Argyfwng neu efallai y cewch swm llai na'r swm y gofynnoch amdano.

Sut y byddaf yn ad-dalu'r Benthyciad Argyfwng?

Fel arfer byddwn yn mynd â swm wythnosol o unrhyw fudd-daliadau eraill y gallech chi neu eich partner fod yn eu cael. Os nad ydych yn cael budd-dal, byddwn yn gofyn i chi ein had-dalu o unrhyw arian arall a gewch, fel cyflog.

Beth os wyf yn cael trafferth i'w ad-dalu?

Dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl. Efallai y gallwn helpu. Er enghraifft, efallai y gofynnwn i chi dalu llai bob wythnos ond am gyfnod hirach.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn gynted â phosibl os oes gennych broblem.

Os byddwch yn anghytuno gyda'n penderfyniad

Gofyn i ni adolygu eich penderfyniad

Beth os wyf am gael gwybod mwy am y penderfyniad neu os credaf ei fod yn anghywir?

Os byddwch yn teimlo fel hyn am y penderfyniad ar eich cais am Grant Gofal Cymunedol, Benthyciad Trefnu neu Fenthyciad Argyfwng, gallwch gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith a gofyn i ni egluro'r penderfyniad.

Os credwch ei fod yn anghywir, gallwch ysgrifennu atom i ofyn am adolygiad.

Efallai y byddwch am wneud hyn os ydych:

- yn credu bod yr unigolyn a benderfynodd heb wybod yr holl ffeithiau
- yn credu bod y penderfyniad yn anghywir, neu y gwnaed camgymeriad
- yn credu bod y gyfraith wedi'i chymhwyso'n anghywir, neu
- yn anfodlon â'r canlyniad.

Sut ydw i'n gofyn am adolygiad?

Anfonwch lythyr wedi'i lofnodi yn gofyn am adolygiad i'r Ganolfan Byd Gwaith o fewn 28 diwrnod ers y dyddiad ar eich llythyr penderfyniad. Dywedwch wrthym pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.

Dim ond pan fydd rhesymau arbennig y gallwn roi mwy o amser i ofyn am adolygiad. Os byddwch yn anfon eich llythyr ar ôl 28 diwrnod, dywedwch wrthym pam ei fod yn hwyr.

Os na allwn newid y penderfyniad i'r un rydych am ei gael, byddwn yn cynnig cyfweliad i chi. Bydd hyn fel arfer yn digwydd dros y ffôn ond gall fod wyneb yn wyneb. Byddwn yn egluro ein penderfyniad a gallwch ddweud wrthym beth arall y credwch y dylem wybod.

Ar ôl i ni siarad â chi, byddwn yn adolygu eich achos.

- Os gellir newid y penderfyniad, byddwn yn anfon llythyr penderfyniad newydd atoch.
- Os na ellir newid y penderfyniad, byddwn yn ysgrifennu atoch yn egluro pam.

Adolygiadau gan Arolygydd Cronfa Gymdeithasol

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'n penderfyniad, gallwch wneud cais i un o Arolygwyr y Gronfa Gymdeithasol adolygu eich achos.

Gall yr Arolygydd edrych ar eich achos a:

- cytuno gyda'r penderfyniad
- gofyn i ni edrych arno eto, neu
- gwneud ei benderfyniad ei hun.

Bydd yn ysgrifennu atoch yn egluro beth yw ei benderfyniad a pham.

Sut y gallaf wneud cais am adolygiad gan un o Arolygwyr y Gronfa Gymdeithasol?

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad newydd.

Gallwch naill ai anfon llythyr wedi'i lofnodi neu gwblhau ffurflen IRS1 yn gofyn iddynt am adolygiad. Dylai copi o'r ffurflen hon fod wedi'i hanfon gyda'ch llythyr penderfyniad newydd. Os na fydd hyn wedi digwydd, gallwch ofyn i'r Ganolfan Byd Gwaith am un.

Dywedwch wrth y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.

Gallant roi mwy o amser i chi ofyn am adolygiad yn unig pan fydd gennych resymau arbennig. Os byddwch yn anfon llythyr neu ffurflen IRS1 ar ôl 28 diwrnod, sicrhewch eich bod yn dweud wrthynt pam ei fod yn hwyr.

Anfonwch eich llythyr neu'ch ffurflen IRS1 i:

Independent Review Service
FREEPOST
4th floor, Centre City Podium
5 Hill Street
Birmingham B5 4UB

Os bydd rhywun yn ysgrifennu'r llythyr neu'n llenwi'r ffurflen ar eich rhan, mae'n rhaid i chi gytuno'n ysgrifenedig iddynt wneud hyn, oni bai eich bod eisoes wedi penodi'r unigolyn hwn i wneud hawliadau budd-daliadau ar eich rhan.

Angen talu am angladd?

Taliad Angladd

Beth yw Taliad Angladd?

Os ydych chi neu'ch partner ar incwm isel ac yn gorfod trefnu angladd, efallai y gallwch gael rhywfaint o help gyda'r costau.

Mae hwn yn taliad di-dreth untro i'ch helpu i dalu am gostau angenrheidiol angladd.

Pwy all gael help gyda chostau angladd?

Mae'n rhaid i chi neu'ch partner fod yn cael un o'r budd-daliadau canlynol.

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol
- Credyd Treth Plant ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen deuluol
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Mae'n rhaid iddo hefyd fod yn rhesymol i chi neu'ch partner dalu am yr angladd.

Efallai y bydd angen i ni ystyried amgylchiadau perthnasau eraill y person a fu farw.

Fel arfer bydd angen i'r person fod wedi byw yn y DU pan fu farw. Fel arfer bydd angen cynnal yr angladd yn y DU.

Sut y dylwn wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Pryd y gallaf wneud cais?

Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis i ddyddiad yr angladd.

Os ydych yn aros am benderfyniad ar fudd-dal sydd ei angen arnoch er mwyn i chi gael Taliad Angladd, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn y terfyn amser tri mis.

Faint o help y gallaf ei gael?

Gall y Gronfa Gymdeithasol eich helpu i dalu am angladd syml, parchus a chost isel.

Mae hyn yn cynnwys:

- y costau angenrheidiol ar gyfer ffioedd claddu neu amlosgi
- plot claddu newydd (os dewisir claddu)
- costau eraill penodol, fel cost tystysgrif marwolaeth a chostau trafnidiaeth penodol, a
- hyd at £700 ar gyfer unrhyw gostau angladd eraill, fel ffioedd y trefnydd angladdau, yr arch neu flodau.

Efallai y byddwn yn tynnu rhywfaint o arian:

- os bydd gan y person a fu farw unrhyw asedau sydd ar gael i chi neu i aelod o'ch teulu
- ar gyfer unrhyw gyfandaliad o gynllun angladd rhagdaledig neu daliad polisi yswiriant, ac
- ar gyfer costau y talwyd amdanynt gan elusen, gan berthynas neu grant arall.

Beth os oes gennyf gynilion?

Ni fydd eich cynilion yn effeithio ar eich Taliadau Angladd.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

A oes rhaid i mi ad-dalu'r Taliad Angladd?

Os cewch Daliad Angladd, bydd yn rhaid ei ad-dalu o ystad y person a fu farw. Mae eu hystad yn cynnwys arian, eiddo a phethau eraill yr oedd yn berchen arnynt. Nid yw unrhyw gartref y mae'r partner yn dal i fyw ynddo neu bethau personol a adawyd i berthnasau yn rhan o'r ystad.

Sut y byddwch yn fy nhalu?

Os nad yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi'i dalu, byddwn fel arfer yn talu'r Taliad Angladd yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc y trefnydd angladdau. Neu efallai y byddwn yn anfon siec atoch yn daladwy i'r trefnydd angladdau er mwyn i chi ei rhoi iddo. Os bydd bil y trefnydd angladdau wedi'i dalu byddwn yn gwneud y taliad i chi, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu fel arfer.

Sut rydych yn penderfynu?

Unwaith y byddwch wedi anfon eich pecyn cais atom, byddwn yn penderfynu a allwch gael Taliad Angladd. Byddwch yn cael llythyr yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am pam y gwnaethom y penderfyniad hwnnw, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith a gofynnwch i ni ei egluro.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, gweler tudalen 30.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Ni fydd Taliad Angladd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill.

Angen prynu pethau i fabi newydd?

Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

Beth yw Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn?

Mae hwn yn taliad untro i helpu i dalu am bethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer babi newydd yn y teulu os ydych ar incwm isel ac yn cael rhai budd-daliadau neu gredydau treth.

Mae'r grant yn un di-dreth ac nid oes rhaid i chi ei ad-dalu.

Mae'r rheolau wedi newid ar gyfer babanod a ddisgwylir, neu a anwyd ar neu ar ôl 11 Ebril 2011. Mae'r newidadau hyn yn golygu nad ydym yn talu am bob babi.

Pa fabanod y gallwn dalu ar eu cyfer?

Gallwn ond talu ar gyfer eich babi newydd, a babanod o'r un beichiogrwydd er enghraifft efeillaid, os nad oes unrhyw blant eraill o dan 16 oed yn eich teulu.

Gallwn ond talu ar gyfer babi newydd eich dibynnydd, a babanod o'r un beichiogrwydd, cyn belled ag y bod eich dibynnydd o dan 20 oed ac nid oes ganddi unrhyw blant eraill.

A allaf gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn?

Efallai y gallwch gael un o'r grantiau hyn os:

- disgwylir i'ch babi neu fabi eich dibynnydd gael ei eni'n fuan, neu os cafodd ei eni yn ystod y tri mis diwethaf, neu.
- chi yw rhiant cyfrifol babi (ond nid y fam) ac rydych yn hawlio o fewn tri mis o ddod yn gyfrifol.

Gallwch hawlio hefyd os:

- rhoddwyd gorchymyn mabwysiadu neu breswylio i chi ar gyfer babi
- rhoddwyd gorchymyn rhiant i chi ar gyfer genedigaeth faeth
- lleolwyd babi gyda chi i'w fabwysiadu gan asiantaeth neu rydych wedi mabwysiadu babi o dramor, neu
- rydych wedi cael eich penodi'n warcheidwad babi.

Mae'n rhaid i chi, neu eich partner, fod yn cael un o'r budd-daliadau hyn.

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol
- Credyd Treth Plant, ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen deuluol

Pryd y gallaf wneud cais?

- Dylech wneud cais os ydych chi neu'ch dibynnydd yn disgwyl babi yn ystod y 11 wythnos nesaf, neu wedi cael babi yn ystod y 3 mis diwethaf.
- Os nad chi yw'r fam ond yn rhiant cyfrifol, gallwch wneud cais am grant cyn belled nad yw'r babi yn hŷn na 12 mis oed pan fyddwch yn gwneud cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis o ddod yn gyfrifol

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

- Os ydych yn mabwysiadu babi neu os ydych wedi cael gorchymyn preswylio neu orchymyn rhieni mewn perthynas â babi, gallwch wneud cais am grant ar yr amod nad yw'r babi'n hŷn na 12 mis oed pan fyddwch yn gwneud cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis o'r dyddiad y gwnaethoch fabwysiadu neu'r gorchymyn preswylio neu'r gorchymyn rhieni.
- Os ydych chi wedi eich penodi fel gwarcheidwad y babi, gallwch wneud cais am grant ar yr amod nad yw'r babi yn hŷn na 12 mis oed pan fyddwch yn gwneud cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis i'r gwarcheidiaeth ddigwydd.
- Os ydych wedi mabwysiadu babi dramor gallwch wneud cais am grant ar yr amod nad yw'r babi yn hŷn na 12 mis oed pan fyddwch yn gwneud cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis i'r mabwysiad ddod i rym neu'n cael ei gydnabod.

Os ydych wedi gwneud cais am un o'r budd-daliadau y mae angen i chi ei gael i gael y grant hwn a'ch bod yn aros am benderfyniad, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn y terfynau amser uchod o hyd.

Mabwysiadau tramor

I wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, mae'n rhaid i'r mabwysiad tramor fod yn rhan o adran 66 (1) (c) i (e) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Sut y dylwn wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, gweler tudalen 30.

Sut y caf fy nhalu?

Fel arfer byddwn yn talu Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn yn uniongyrchol i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Nid yw Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn yn effeithio ar fudd-daliadau eraill.

A oes angen help arnoch gyda'ch costau gwresogi?

Taliad Tywydd Oer

Beth yw Taliad Tywydd Oer?

Arian tuag at daliadau gwresogi ychwanegol yn ystod wythnos o dywydd oer iawn yn eich ardal.

Nid oes angen i chi wneud cais. Os gallwch gael taliad, byddwch yn ei gael yn awtomatig. Nid oes rhaid i chi dalu'r arian yn ôl.

A allaf gael Taliad Tywydd Oer?

Efallai y gallech gael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

Oni bai eich bod yn cael Credyd Pensiwn, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm yn y prif gam, mae'n rhaid i chi hefyd cael premiwm pensiynwr neu anabledd gyda'ch budd-dal, neu fod gennych blentyn anabl o dan bum mlwydd oed.

Caiff y Taliad Tywydd Oer ei dalu pan fydd tymheredd eich ardal ar gyfartaledd yn 0°C neu'n is, neu y rhagwelir mai dyna fydd y tymheredd, dros saith diwrnod yn olynol.

Sut y dylwn wneud cais?

Nid oes angen i chi wneud cais. Rydym yn talu unrhyw un a all gael Taliad Tywydd Oer yn awtomatig.

Beth os oes gennyf gynilion?

Nid yw cynilion yn effeithio ar eich Taliadau Tywydd Oer.

Beth os nad wyf wedi cael Taliad Tywydd Oer ond y credaf y dylwn fod wedi'i gael?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Dywedwch wrthym pam y dylech gael taliad yn eich barn chi. Byddwn yn edrych ar eich achos ac yn rhoi gwybod i chi.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, gweler tudalen 30.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Nid yw Taliad Tywydd Oer yn effeithio ar fudd-daliadau eraill.

Taliad Tanwydd Gaeaf

Beth yw Taliad Tanwydd Gaeaf?

Taliad blynyddol yw hwn a wneir i bobl gymwys i'w helpu gyda'u biliau gwresogi dros y gaeaf. Mae'r arian hwn yn ddi-dreth.

Bydd yr oedran y gallwch gael Taliad Tanwydd Gaeaf ar gyfer dynion a merched yn codi yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched.

Nid oes angen i chi fod ar fudd-daliadau.

Nid oes angen i'r rhan fwyaf o bobl wneud cais. Os byddant yn gymwys, cânt taliad yn awtomatig.

A allaf gael Taliad Tanwydd Gaeaf?

Gallech gael hwn os wnaethoch fodloni'r amodau cymhwyster yn ystod yr wythnos o 20 i 26 Medi 2010 ac wedi eich geni ar neu cyn 5 Gorffennaf 1950.

Ni fyddwch fel arfer yn gallu cael Taliad Tanwydd Gaeaf os byddwch, yn ystod yr wythnos gymhwyso:

- yn byw mewn cartref gofal, ysbyty annibynnol neu yng Nghartref Ailsefydlu Pwyliaid Ilford Park (ac wedi bod yno am 12 wythnos neu fwy) ac yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn.
- mewn ysbyty yn cael triniaeth am ddim i gleifion mewnol (ac wedi bod yno am fwy na 52 wythnos)
- yn y ddalfa yn bwrw dedfryd a bennwyd gan lys, neu
- o dan reolaeth mewnfudo ac nad ydych yn gymwys i gael help gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Llinell Gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf

www.direct.gov.uk/tanwyddgaeaf

Ffôn: 0845 915 1515

Ffôn testun: 0845 601 5613

Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 4.30pm

Sut y dylwn wneud cais?

Os ydych wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf o'r blaen, dylech ei gael heb wneud cais ar yr amod bod eich manylion diweddaraf gennym a'ch bod yn dal i fodloni'r amodau.

Os nad ydych wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf o'r blaen, ac nad ydych yn cael budd-daliadau neu os mai dim ond Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor neu Fudd-dal Plant rydych yn ei gael, bydd angen i chi wneud cais.

Pryd y gallaf wneud cais?

Os bydd angen i chi wneud cais, anfonwch eich ffurflen gais atom yn gyflym. Mae'n rhaid derbyn bob cais ar gyfer Gaeaf 2010/11 ar neu cyn 30 Mawrth 2011.

Beth os oes gennyf gynilion?

Nid yw cynilion yn effeithio ar Daliadau Tanwydd Gaeaf.

Pryd y caf fy nhalu?

Byddwn yn gwneud taliadau awtomatig rhwng dechrau mis Tachwedd a'r Nadolig bob blwyddyn. Os na fyddwch wedi cael taliad erbyn y Nadolig, ffoniwch y swyddfa sy'n talu eich budd-dal fel arfer neu ffoniwch y llinell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf.

Os byddwch yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf y gaeaf hwn a'ch bod yn parhau i fodloni'r amodau, dylech gael eich taliad yn uniongyrchol yn y dyfodol, cyn belled â'ch bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau ar unwaith.

Beth os nad wyf wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf ac y credaf y dylwn fod wedi'i gael?

Cysylltwch â llinell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf. Dywedwch wrthynt pam y dylech fod wedi cael taliad yn eich barn chi.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, gweler tudalen 30.

A fydd yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Ni fydd Taliad Tanwydd Gaeaf yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith o fewn mis o gael y llythyr penderfyniad. Os byddwch yn cysylltu â ni yn nes ymlaen, efallai na allwn eich helpu.

Gallwch chi neu rywun sydd ag awdurdod i weithredu ar eich rhan:

- gofyn am eglurhad
- gofyn am ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros ein penderfyniad
- gofyn i ni edrych eto ar y penderfyniad i weld os gellir ei newid. Efallai y bydd rhai ffeithiau y credwch ein bod wedi eu hesgeuluso neu efallai y bydd gennych ragor o wybodaeth sy'n effeithio ar y penderfyniad, neu
- apelio yn erbyn y penderfyniad i dribiwnlys annibynnol (ond bydd yn rhaid iddo fod yn ysgrifenedig).

Gallwch wneud unrhyw un o'r gweithrediadau a restrir uchod, neu'r cyfan.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gael y manylion o'r llyfr ffôn.

Beth os na allaf gael cymorth gan y Gronfa Gymdeithasol?

I weld a oes unrhyw daliadau neu fudd-daliadau eraill y gallech eu cael, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Os ydych yn 60 oed a throsodd, efallai y byddai'n well gennych holi am Y Gwasanaeth Pensiwn. I gael manylion cyswllt, ewch i dudalen 32.

I gael gwybod mwy am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Edrychwch ar dudalen 32 er mwyn gweld sut i gysylltu â ni.

Cysylltiadau

Cyllid a Thollau EM

I gael gwybod mwy am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith:

Ffôn: 0845 300 3900

Ffôn testun: 0845 300 3909

Gallwch hefyd gael gwybodaeth o wefan Cyllid a Thollau EM yn www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Y Ganolfan Byd Gwaith

I gael rhagor o wybodaeth am grantiau a benthyciadau, Taliad Angladd, Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, neu Daliad Tywydd Oer, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Y Gwasanaeth Pensiwn

I gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn:

Ffôn: 0845 606 0275

Ffôn testun: 0845 606 0295

Gwefan: www.direct.gov.uk/pensiynau

Adolygiad Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol

I ofyn am adolygiad, gallwch anfon ffurflen IRS1 neu lythyr i:

Independent Review Service
FREEPOST
4th floor, Centre City Podium
5 Hill Street
Birmingham B5 4UB

Llinell Gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf

Mae'r llinell gymorth hon yn rhoi cyngor ar Daliadau Tanwydd Gaeaf, ac ar wneud ceisiadau eraill:

Ffôn: 0845 915 1515

Ffôn testun: 0845 601 5613

Neu ewch i
www.direct.gov.uk/tanwyddgaeaf

Os ydych yn berchen ar eich cartref, neu'n rhentu gan landlord preifat, efallai y gallwch gael help gyda chostau gwresogi neu inswleiddio.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, ffoniwch y Llinell Gyngor Cadw'n Gynnes yn y Gaeaf ar 0800 085 7000

Os ydych yn byw yn yr Alban gallwch gael rhagor o wybodaeth gan Scottish Gas ynglŷn â:

Warm Deal 0800 316 6009

Y rhaglen gwres canolog 0800 316 1653

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 7c y funud gyda thâl o 11c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un.

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i
www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-016-2
DWP1007W | f2.2 (Ionawr 2011) | v2.2 (January 2011)